

2014 Rhif 2000 (Cy. 201)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Dros Dro Droï i'r Chwith a Throi i'r Dde a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2014

Gwnaed 24 Gorffennaf 2014

Yn dod i rym 31 Gorffennaf 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd - Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Gwahardd Dros Dro Droï i'r Chwith a Throi i'r Dde a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yng Ngyfnewidfa Coryton yn Ninas Caerdydd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiad

3. Yn ddarostyngedig i erthygl 6, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei ddefnyddio, i droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw gerbyd, na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei ddefnyddio, i droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Gorffennaf 2014

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

GWAHARDD DROS DRO DROI I'R CHWITH

Ymadael â ffordd gyswllt neilltuedig newydd tua'r gogledd yr A470 a mynd ar gerbyttfordd tua'r de yr A470.

ATODLEN 2

GWAHARDD DROS DRO DROI I'R DDE

Ymadael â system gylchu'r A470 a mynd ar ffordd gyswllt neilltuedig newydd tua'r gogledd yr A470.

ATODLEN 3

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Y darn o ffordd gyswllt neilltuedig newydd tua'r gogledd yr A470 o'i chyffordd â system gylchu'r A470 i'w chyffordd â cherbyttfordd tua'r de yr A470.